

Cloch Dewi

Cyf 10: Rhif 3 Hydref 2026



Ar Sul y Diolchgarwch y Ficer a'r Curad yng nghwmni ein pregethwr gwadd
yr Hybarch Matthew Hill, Archddiacon Caerfyrddin

Eglwys Dewi Sant Caerdydd

eglwywdewisant.org.uk

 EglwysDewiSant

 @eglwywdewisant

 Eglwys Dewi Sant
Caerdydd

Yn y rhifyn hwn

Llythyr y Ficer

Logo a gwefan newydd i
Eglwys Dewi Sant

Cofio Ann Griffiths

Gwaith atgyweirio'r to

Tud

2/4

5

6/7

8

Pererindod Mis Awst

Pobl y Plwyf

Arglwydd Dysg inni
Weddio

Ar gyfer eich dyddiadur

Tud

9

10

11

12

Os am ragor o wybodaeth am
Eglwys Dewi Sant:

Ficer: Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd

Ffôn: 029 2056 6001

E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com

Curad: Y Parchedig Athro Lloyd
Llewellyn-Jones

Llythyr y Ficer

Annwyl Gyfeillion,

Yn fy llythyr ym mis Ionawr eleni tynnais eich sylw at awr weddol dywyll ac anodd yn ein hanes fel eglwys. Cyfeiriai at y diwrnod hwnnw 85 mlynedd yn ôl pan laniodd bom ar yr eglwys yn Howard Gardens mewn cyrch awyr ym mis Mawrth 1941. Aeth yr eglwys lan yn ulw dân. Mor danbaid oedd y tân, roedd hyd yn oed carreg y pileri wedi cael eu difa. Wrth gwrs nid Eglwys Dewi Sant oedd yr unig eglwys yng Nghaerdydd i ddioddef y fath anffawd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd Eglwys Gadeiriol Llandaf wedi dioddef yr un anffawd rai misoedd ynghynt. Mae cofio ein hanes yn bwysig; mae'n gallu rhoi persbectif newydd ar ein presennol, mae'n rhan o'n stori ni fel eglwys yn y ddinas hon ac yn rhan o'n hunaniaeth fel eglwyswyr sy'n addoli trwy gyfrwng y Cymraeg.

Eglwys Dewi Sant, Cardiff, damaged by Nazi raiders.



*Y difrod i Eglwys
DewSant Howard Gardens
1941*

Er i'r adeilad yn Howard Gardens gael ei ddifrodi'n llwyr, a maes o law, ei ddymchwel, a lle bellach mae bloc o fflatiau lle gynt y safai'r eglwys, mae Eglwys Dewi Sant wedi goroesi! 'Dyn ni yma o hyd! Nid brics a mortar yw'r eglwys ond pobl sy'n dod at ei gilydd yn enw Iesu Grist. Mae'n bwysig inni gofio hynny. Er mor bwysig yw adeilad, mae'r eglwys ei hun yn llawer mwy nag adeilad, "meini bywiol yn cael ei adeiladu yn dŷ ysbrydol" yw eglwys yn ôl Epistol Cyntaf Pedr. Mae adeilad eglwys yn lle cyfleus i ni gyfarfod, wedi ei gynllunio mewn ffordd arbennig sy'n ein galluogi i ddod at ein gilydd i addoli. Mae adeilad eglwys yn dir cyffredin i bawb mewn sawl ystyr; does dim un person yn berchen arno, a does neb yn gallu mynnu pwy sy'n cael dod i mewn a phwy sy ddim, dim hyd yn oed y Ficer, oni bai fod resymau cyfreithiol yn gwahardd rhywun! Mae adeilad eglwys yn perthyn i'r plwyfolion sy'n sicrhau ei fod yn agored i bawb ac bod croeso i bawb gerdded i mewn ac ymuno yn ein haddoliad a'n gweithgareddau. Mae hynny wrth reswm yn wahanol i fod yn rhan o'r eglwys ac ymrwymo i fywyd yr eglwys a'i chymdeithas. Fel plwyfolion Dewi Sant, gwarchodwyr yr adeilad ydym ni ac fe wnawn hyn am ei fod yn gartref ysbrydol inni, heblaw am fod yn un o drysorau pensaernïol Caerdydd.

Gellid bod yn eglwys heb adeilad pwrpasol, ond fel y darganfu Eglwys Dewi Sant ar ôl i'w hadeilad gael ei ddifrodi'n llwyr, nid hawdd oedd bod heb adeilad pwrpasol. Yn wir, roedd yr hen Eglwys Dewi Sant yn ffodus oherwydd bod ganddi neuadd i gwrdd ynddi. Un peth oedd cwrdd yn y neuadd pan yr oedd y rhyfel yn rhygnu yn ei flaen a phawb yn gwneud y gorau y gallai o'r sefyllfa.

Ond yn ystod y blynyddoedd wedi diwedd y rhyfel, doedd dim penderfyniad wedi ei wneud am ddyfodol Eglwys Dewi Sant, ac rwy'n weddol sicr y byddai nifer wedi dechrau digalonni a gofyn beth yw pwynt parhau â'r sefyllfa. Daeth yn amlwg yn weddol gyflym, nad oedd arian nac adnoddau craidd ar gael i ailgodi'r hen adeilad. Yn ychwanegol at hyn, roedd yr esgobaeth yn ceisio penderfynu pa blwyfi y dylid eu cadw a pha blwyfi y dylid eu diddymu. Roedd y rhyfel wedi newid pethau, ac roedd dinas Caerdydd yn newid. Roedd rhai mewn awdurdod yn yr eglwys yn gofyn a oedd angen eglwys Gymraeg ac yn gofyn a fyddai galw am un yn y dyfodol. Wedi'r cyfan, lleihau oedd nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr Esgobaeth ac yr oedd yr eglwys Cymraeg eu hiaith yn yr esgobaeth hon yn dechrau cau, neu yn newid iaith o'r Gymraeg i'r Saesneg.

I'r Ficer, Canon Rosser, a'r plwyfolion yr oedd hwn yn gyfnod pryderus ac ansicr. Doedd neb yn gallu darogan beth oedd gan y dyfodol i'w gynnig. Ond parhau i ymgynnull yn ffyddlon wnaeth plwyfolion Dewi Sant, Sul ar ôl Sul, bore a hwyr, yn y neuadd am dros ddeng mlynedd heb adnoddau digonol i ddatblygu bywyd yr eglwys, dim ond digon i barhau yn yr un modd. Weithiau, yn wyneb ansicrwydd, yr unig ffordd ymlaen yw cadw'n ffyddlon, er nad yw hynny'n hawdd. Mae eraill yn sylwi ar ffyddlondeb, ffyddlondeb i'r hawl o addoli a mynegi ffydd yn yr iaith Gymraeg. Llauer haws i'r mwyafrif o plwyfolion, rwy'n siŵr, fyddai mynd i'r eglwys blwyf agosaf a chael y gwasanaethau a'r sacramentau yn Saesneg. Rwy'n siŵr bod rhai heddiw yn ddigon anwybodus ac eofn i'n cyhuddo ni o addoli iaith yn Eglwys Dewi Sant. Nid addoli iaith ydym, ond amddiffyn a defnyddio ein hawl i fynegi ein ffydd yn yr union iaith a ddysgom ni gyntaf i weddio "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd". Mae Dydd y Pentecost yn gosod sylfaen gadarn inni gyda'r egwyddor fod y newyddion da am Iesu Grist i'w gyhoeddi a'i glywed yn ein mamiaith. (Actau 2:1-12).

Rwy'n weddol sicr y bu llawer o drafod rhwng Canon Rosser, y Wardeniaid, y Cyngor Plwyfol Eglwysig a'r Esgobaeth, gydag ambell gyfarfod digon tanlyd rwy'n siŵr, ond talu ar ei ganfed a wnaeth eu ffyddlondeb a'u dyfalbarhad. Ni wireddwyd dymuniad y plwyfolion i weld yr hen Eglwys Dewi Sant yn cael ei hailadeiladu, ond daeth cyfle arall. Caewyd Eglwys Sant Andreas yn 1954 oherwydd bod nifer o'r tai o'i hamgylch yn cael eu troi'n swyddfeydd wrth i'r ddinas ehangu. (Rhyfedd yw meddwl erbyn heddiw fel y mae nifer o'r swyddfeydd hyn wedi cau a bellach yn cael eu troi'n fflatiau neu Air b&bs). Roedd symud i'r adeilad hwn yng Nghilgiant Sant Andreas yn bell o fod yn opsiwn perffaith. Roedd llawer o waith i wneud ar yr adeilad, ac yr oedd angen ei addasu. Gyda'r adnoddau prin a oedd ar gael ar y pryd, fe rannwyd yr adeilad er mwyn creu eglwys a neuadd o dan un to. Yr ydym wedi elwa'n fawr o'r weledigaeth hon, nid yn unig am fod gennym adeilad sy'n ddefnyddiol iawn i'n dibenion ni fel eglwys, i'n haddoliad a'n cymdeithas, ond sydd hefyd ar gael i grwpiau eraill sy'n mwynhau ei ddefnyddio.



Canon Rosser yn arwain y Côr ar gyfer y gwasanaeth agoriadol ar Ŵyl yr Holl Saint 1956

Pymtheng mlynedd ar ôl i'r hen adeilad gael ei difrodi'n llwyr, ar Ŵyl yr Holl Saint, 1 Tachwedd 1956, symudodd Eglwys Dewi Sant i'w hadeilad newydd a'i alw'n gartref. 70 mlynedd yn ddiweddarach yr ydym yn parhau i'w alw'n gartref ysbrydol inni a thros yr ugain mlynedd diwethaf yr ydym wedi buddsoddi ynddo fel y gall barhau am o leiaf 70 mlynedd arall. Mae pob eglwys yn etifeddu gwaddol y gorffennol, ac er gwaethaf popeth, fe allwn ni ddweud ein bod yn etifeddion ffodus iawn, yn ein hawl a'n gallu i addoli, i wrando a mynegi ein ffydd yn yr iaith Gymraeg yn ein traddodiad Anglicanaidd, ac am gael adeilad sy'n parhau i ymateb i'n hanghenion yng nghanol Prif Ddinas Cymru

Cawsom ddathliadau mawr ddeng mlynedd yn ôl i nodi 60 mlynedd ers i Eglwys Dewi Sant symud i'r cilgant gyda gwasanaethau arbennig, ambell gyngerdd a gŵyl flodau odidog i goroni'r cyfan. Llai fydd ein dathliadau pen blwydd yn 70. Cynhelir gwasanaeth arbennig ar **Ŵyl yr Holl Saint, 1 Tachwedd 2026 am 10.30am**, ond dathlu a wnawn. Gobeithio y cawn eich gweld chi yno i nodi'r garreg filltir hon yn ein hanes.



Yr Allor yn yr Ŵyl Flodau i goroni'r ddathliadau pen blwydd Eglwys Dewi Sant yn 60 mlwydd oed yn Cilgant Sant Andreas ym 2017.

Gyda phob bendith,
Dyfrig.

Gwefan newydd a Logo i Eglwys Dewi Sant

Fel y gwyddom, does dim yn digwydd yn gyflym yn yr eglwys, ac weithiau mae hynny yn gallu bod yn fendith! Ers rhai blynedd bellach yr ydym wedi bod yn trafod gwefan yr eglwys a phendroni a oes angen un newydd arnom neu beidio. Mae ein gwefan bresennol wedi bod gennym am fwy na degawd, ac fel popeth arall, mae pwrpas a diben gwefan yn newid dros amser. Yn y diwedd penderfynwyd ein bod angen gwefan newydd â golwg cyfoes a ffres arni.

Nid ffyddloniaid yr eglwys sy'n defnyddio'r wefan fel y cyfryw gan ein bod yn dueddol o dderbyn gwybodaeth yn y bwletin wythnosol a'r negeseuon Whatsapp. Penderfynom gynllunio'r wefan newydd gan ystyried y rhai nad ydynt yn dod i'r eglwys ond sydd eto yn chwilio am eglwys Gymraeg a'i gwasanaethau neu ysgol Sul ayb, a'r rhai sy'n chwilio am wybodaeth am y cyngherddau a gynhelir yma yn EDS.

Bydd lleoliad yr eglwys yn y ddinas ac amserau ein gwasanaethau a digwyddiadau i'w gweld yn glir ar y wefan newydd gyda'r neges amlwg a diffuant "Mae croeso i chi ddod atom ni".

Wrth gynllunio'r wefan gyda'r dylunydd, gofynnwyd imi a oedd gennym logo fel eglwys? Mae'n rhaid imi gyfaddef nad ydw i erioed wedi bod yn un sydd wedi cael fy nghyffroi gan logos a brandio o unrhyw fath, yn enwedig mewn cyddestun eglwysig. Onid Crist a'i groes yw 'logo' pob eglwys? Beth mwy sydd ei angen? Felly, gofynnais iddo a oeddem angen logo? Ei ateb syml oedd, "os oes gennych logo bydd y gwaith o benderfynu ar naws y wefan yn haws. Bydd y logo yn ymddangos ar bob tudalen o'r wefan ac felly'n creu teimlad o gyfuniad". "Yn ogystal", meddai, "byddai modd defnyddio'r logo ar eich bwletin wythnosol, taflenni gwasanaethau arbennig, cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau eraill gan ategu'r syniad bod y cyfan yn perthyn i'w gilydd a hynny mewn dull proffesiynol".

Wedi iddo ddwyn perswâd arnaf, fe fwriais ati i feddwl ymhellach. Roeddwn wedi gweld sawl logo eglwys dros y blyneddau ac yr oedd y mwyafrif ohonynt yn cynnwys croes o ryw fath. Er hyn, roeddem yn awyddus i greu delwedd a oedd yn weddol unigryw i'n heglwys ni. Dechreuais bendroni! Cafodd ein heglwys ni ei chysegru i Dewi, nawddsant Cymru. Wrth feddwl am ei hanes, cofiais fod tri symbol yn gysylltiedig â Dewi, sef ffon, bangu (cloch law yr oedd yn ei chario i bobman) a cholomen. Ond sut oedd dod â'r tair elfen hyn at ei gilydd?

Yn dilyn sgwrs gyda Ieuan Jones dechreuodd y syniadau lifo ac ar ôl sawl methiant llwyr, daethpwyd i gytundeb ar ddelwedd yr oeddem yn fodlon arni.



EGLWYS DEWI SANT CAERDYDD

Dyma'r ddau gynllun terfynol.

Yng nghanol y bangu ar y logo fe welwch chi'r 'ffon'. Roedd Dewi yn deithiwr, yn teithio ar draws rhannau helaeth o Gymru, Cernyw, Dyfnaint, Llydaw ac Iwerddon yn ôl y sôn, ac wrth reidrydd byddai wedi defnyddio ffon i'w helpu i dramwyo corstiroedd neu i ddringo brynau a mynyddoedd. Mae hefyd yn ein hatgoffa fod Dewi yn esgob ac fe allwn ni feddwl am y ffon fel bagl esgob, a Dewi fel ein nawddsant yn "fugail Cymru".

Ar flaen y ffon y mae croes – ac mae'r groes ar gynllun croes Geltaidd, yr un groes y mae'r Eglwys yng Nghymru yn ei harddel. Mae hon yn ein hatgoffa ein bod yn rhan o'r Eglwys yng Nghymru sydd â'i gwreiddiau yn ymestyn yn ôl i Oes y Seintiau, a'n bod ninnau yn rhannu yn y traddodiad hwnnw. Gyda llaw, trwy hap a damwain, mae lliwiau ein logo ni bron yn union yr un lliwiau â'r rhai a welir ar wefan newydd yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Llandaf, sy'n cyfleu y neges ein bod yn rhan o'r un eglwys fwy. Diolch am ambell hap a damwain!

Yn olaf, mae'r 'Golomen' gennym. Mae'r Golomen yn aml iawn yn cael ei defnyddio fel symbol o bresenoldeb yr Ysbryd Glân. Ym Muchedd Dewi gan Rhygyfarch, yn y stori enwocaf am Ddewi pan y'i gwahoddwyd i bregethu yn Synod Llanddewi Brefi a phan gododd y tir o dan ei draed, fe gawn gyfeiriad at y Golomen. Dywed Rhygyfarch, "Wrth ddod i'r Synod, pregethodd Dewi yn rasol, a cholomen burwyn a ddaeth o'r nef a gorffwys ar ei ysgwydd. Clywodd y dorf ei lais fel utgorn yn seinio o fryn uchel; clywed a chredu". Dywed rhai bod y golomen wedi dysgu Dewi sut i ganu, ac mai felly daeth Cymru yn Wlad y Gân.

Rwy'n gobeithio bod yr hanes hwn yn rhoi ychydig o gefndir ac esboniad i'n logo newydd. Y gobaith yw y byddwn yn lansio'r wefan newydd ac yn dechrau defnyddio'r logo newydd ar Wyl yr Holl Saint, 1 Tachwedd 2026 pan fyddwn yn nodi 70 mlynedd ers i gynulleidfa Eglwys Dewi Sant ddechrau addoli yn yr adeilad presennol yn Nghilgant Sant Andreas.

Cofio Ann Griffiths (1776 – 1805) – Prif Emynyddes Cymru

Nos Sul 30 Awst cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Dewi Sant i gofio 250 mlynedd geni Ann Griffiths a'i chyfraniad i emynyddiaeth Cymru.

Dyma ran o'r bregeth.

Mae emynau Ann Griffiths wedi croesi ffiniau – ffiniau ieithyddol a ffiniau enwadol ac maent wedi goroesi dros ddwy ganrif. Canwn ei hemynau hyd heddiw oherwydd fe gawn ynddynt rywbeth sy'n parhau i daro tant â ni. Mae ei hemynau yn drysorau ac yn ysbrydoliaeth i ni, ac fel pob emyn da maent yn rhoi mewn geiriau y profiadau a'r teimladau, sydd efallai yn anodd i ni fynegi yn ein geiriau ein hunain.

Plymiodd Ann i ddyfnder ei henaid ac i ddyfnder ei pherthynas â Christ, ac allan o ddyfnderau ei phrofiadau personol yn y ffydd, daeth yr emynau yr ydym yn eu trysori heddiw. Mae rhywbeth yn hynod o bersonol am ei hemynau, ond maent ar yr un pryd yn ddiwinyddol ddwfn. Ni allwn ddisgrifio ei hemynau yn ysgafn o ran sylwedd na chynnwys. Maent wedi eu britho gan ddelweddau Beiblaidd a dealltwriaeth ddiwinyddol ystyriol:

“Mynediad helaeth byth i bara
I fewn trigfannau Tri yn Un,
Dŵr i nofio heb fynd trwyddo
Dyn yn Dduw a Duw yn Ddyn”.

Mewn ychydig o linellau cryno ac aeddfed fe gawn y Drindod a'r Ymgawdoliad wedi'u plethu ynghyd.

Mae dau beth, yn fy meddwl i, sy'n gwneud emynau Ann yn rhyfeddol.

Yn gyntaf, fe gyfansoddodd ei hemynau nid ar ddarn o bapur, yn ysgrifennu gair a'i groesi allan wrth iddi feddwl am air gwell, ac wedyn dechrau eto, fel mae nifer yn ei wneud wrth gyfansoddi emyn neu gerdd, ond trwy eu cyfansoddi yn gyfan gwbl ar lafar a'u cadw yn ei chof. Yn ogystal, ar lafar y dysgodd hi ei phenillion i eraill. Dim ond un pennill o'i holl benillion a gawn yn ei ysgrifen hi ei hun a hynny mewn llythyr at ffrind.

Yn ail, roedd Ann yn ifanc pan gyfansoddodd hi yr emynau hyn, rhwng 21 a 29 mlwydd oed. Yn anffodus, bu farw yn 29 mlwydd oed yn dilyn genedigaeth ei hunig blentyn Elizabeth. (Bu farw Elizabeth rai dyddiau yn ddiweddarach)

Eto, er yn wraig ifanc fe welwn yn ei hemynau aeddfedrwydd ffydd eithriadol, ac ymddiriedaeth ddi-sgil yn ei Cheidwad.

“Tystio'r wyf nad yw eu cwmni
I'w gystadlu â'm Iesu mawr:
O am aros
Yn ei gariad ddyddiau f'oes.”

Pan oedd ar ei gwely angau, daeth ei chyn-forwyn a ffrind ati a gofyn iddi ysgrifennu'r emynau ar bapur, ond atebodd Ann, “dydyn nhw ddim yn deilwng”! Am ostyngeddrwydd. Diolch i'r drefn mai anwybyddu dymuniad Ann a wnaeth ei ffrind gan sicrhau bod ei hemynau yn cael eu hysgrifennu ar bapur a'u cyhoeddi. Bu farw Ann ym 1805. Erbyn 1806 roedd casgliad o'i hemynau wedi cael ei gyhoeddi gan Thomas Charles y Bala – a daethant yn boblogaidd iawn, a hynny yn gyflym iawn. Erbyn heddiw mae 15 o'i hemynau yn Caneuon Ffydd, a thua hanner dwsin yn Emynau'r Eglwys ac yn Emynau'r Llan.

Yr ydym yn ei hadnabod fel un yn perthyn i fudiad y Methodistiaid, ond da inni gofio mai mudiad oddi mewn i'r Eglwys Wladol oedd y Methodistiaid yn ystod y cyfnod hwn - mudiad a oedd yn ceisio deffro a dihuno'r eglwys o'i thrwmgwsg ysbrydol trwy osod profiad personol yn ganolog i brofiad ffydd. Daniel Rowland, Howell Harris, William Williams Pantycelyn – eglwyswyr oeddynt bob un. Cafodd Ann ei bedyddio yn eglwys blwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa ac ym mynwent yr eglwys honno y'i claddwyd. Erbyn amser Ann Griffiths roedd y Methodistiaid yn dechrau ymwahanu oddi wrth yr Eglwys Wladol.

Ganed Ann yn ffermdy Dolwar Fach, ym Mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa, yn yr Hen Sir Drefaldwyn yng ngwanwyn 1776. Dywed bod ei thad yn “Eglwyswr manwl” ac yn darllen y Beibl bob dydd ar yr aelwyd ac yn arwain defosiynau teuluol. Roedd ei mam hithau yn eglwyswraig ronc. Wrth i'r flynyddoedd fynd heibio, daeth ei dau frawd o dan ddylanwad y Methodistiaid, ond aros yn yr Eglwys Wladol wnaeth Ann. Fel nifer o eglwyswyr y cyfnod roedd hi'n hynod o ddrwgdybus o “chwilfrydedd y Methodistiaid”. Beth oedd yn bod



Ffenestr liw Ann Griffiths yng Nghapel y Crwys, Caerdydd.

Artist: Gareth Morgan 1993.

Llun o'r ffenestr gan Martin Crampin

ar y Llyfr Gweddi Gyffredin a Salmau Cân Edmwnd Prys? Yn y cyfnod hwn, roedd Ann yn hoff o gyfansoddi penillion er mwyn diddanu a difyrru eraill. Yn 21 mlwydd oed aeth i'r Bala o dan berswâd ffrind i wrando ar hen bregethwr y Methodisitaidd o Bwllheli. Yn ystod y bregeth fe ddwysbigwyd ei chydwybod ac yn araf daeth tröedigaeth i'w bywyd, profiad byw o achubiaeth yng Nghrist, ac fe ymunodd â mudiad y Methodistiaid. Trodd ei phenillion o fod yn ysgafn ei naws er mwyn diddanu ffrindiau i fod yn gyfrwng iddi fynegi ei ffydd a'i phrofiadau yng Nghrist.

“Dyma fan yn ymyl Duwdod

I bechadur wneud ei nyth

A chyfiawnder pur Jehofa

Yn siriol wenu arno byth.”

Diolch i'w thröedigaeth a'i phrofiadau yn y seiadau Methodistiaidd, y mae gennym ninnau yr emynau hyn o'i heiddo. Maent yn fwyd ac yn ysbrydoliaeth i ni, ac yn gyfraniad pwysig i emynyddiaeth Cymru. Maent yn rhoi mynegiant i'n ffydd ac yn dyrchafu ein haddoliad hyd heddiw.

“Diolch byth, a chanmil diolch,

Diolch tra bo ynof chwyth,

Am fod gwrthrych i'w addoli

A thestun cân i bara byth;

Yn fy natur wedi'i demtio

Fel y gwaela' o ddynol-ryw,

Yn ddyn bach, yn wan, yn ddinerth,

Yn anfeidrol, fywiol Dduw.”

Gwaith atgyweirio'r to uwchben y grisiau i'r ystafell llofft

Rhys Jones

Ers nifer o flynyddoedd mae dŵr wedi bod yn dod i mewn drwy'r to mewnol uwchben y grisiau i'r ystafell llofft. Yn dilyn sawl cais i atgyweirio'r sefyllfa ni lwyddwyd i ddatrys y sefyllfa. Yn y diwedd dechreuodd y to mewnol ddisgyn.



Y nenfwd cyn dechrau ar y gwaith

Penderfynodd y Pensaer bod angen ail wneud y to. Felly gwnaethpwyd cais am hawleb i gael caniatâd i wneud hynny. Rhoddodd y Pwyllgor ymgynghorol yr Esgobaeth Hawleb i ni er mwyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith. Ar ôl derbyn amcan brisoedd am y gwaith, roedd angen gwneud ceisiadau am grantiau. Roeddwn yn llwyddiannus i dderbyn grant am 50% y gost gan National Churches Trust allan o'u "Cherish Fund".

Cawsom gyfarfod gyda'r Pensaer a'r Adeiladwr ym mis Chwefror gyda'r bwriad o gychwyn y gwaith yn syth. Yn anffodus, clywsom fod cynllun "LPOW - ad-daliad treth" wedi gwario eu cyllideb am y flwyddyn ac felly wedi ein gadael ni yn brin o £4,223.52 ar gyllideb y prosiect.

Gwnaethpwyd cais yn syth i'r esgobaeth am grant i lenwi'r bwlch. Bu rhaid aros tan 19 Mehefin cyn clywed ein bod ni wedi bod yn llwyddiannus gyda'n cais. Rhoddwyd rhybudd i'r Pensaer bod gennym y gyllideb i symud ymlaen.

Cychwynnwyd y gwaith ym mis Awst. Wrth gychwyn codwyd consyrn gan yr adeiladwr bod olion asbestos yn yr hen do. Felly, bu rhaid cael archwiliad o'r samplau a darganfuwyd nad oedd Asbestos ynddynt ac felly roedd popeth yn iawn i fwrw ymlaen gyda'r gwaith.

Roedd y Pensaer wedi cynnwys yn eu manyleb am y gwaith bod angen newid tua 6 o'r trawstiau yn y to. Wedi dechrau ar y gwaith hwn, darganfuwyd bod angen newid y cyfan pan ddymchwelodd y to yn ei gyfanrwydd. Yn ffodus 'roedd arian wedi ei neilltuo wrth gefn i'n galluogi i gadw o fewn i'r gyllideb.

Yn sgil yr uchod mae gennym do newydd a gobeithiwn bydd hwn yn para am nifer o flynyddoedd ac ni fydd dŵr yn medru dod i mewn. Bydd y gwaith wedi gorffen yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn i ni hawlio'r grant o National Churches Trust cyn 13 Hydref 2026

Mae'r gwaith gan gwmni D T Watkins a'i fab yn edrych yn wych ac o safon arbennig. Rydym yn ddiolchgar iddynt am y modd maent wedi mynd ati i sicrhau'r adeilad.



Y to newydd allanol

Pererindod mis Awst - Cadeirlan Aberhonddu

Cafwyd pererindod addysgol a llawn bendith i Eglwys Gadeiriol Aberhonddu ar ddiwedd mis Awst eleni. Er gwaetha'r rhagolygon am dywydd mawr, bu'n hindda trwy gydol y dydd, ond am un gawod trom o law.

Yn ystod cinio blasus yn Nghaffi'r Pererinion ger y Gadeirlan daeth y darpar Ddeon, y Parchedig Dr Adrian Morgan i'n croesawu, ac yntau'n symud i mewn i'r Deondy y diwrnod hwnnw! Yn dilyn hyn manteisiodd nifer ohonom ar y cyngerdd amser cinio yn y Gadeirlan gan fwynhau y canu caboledig a disgybledig ensemble y Byrken Heads, disgyblion o Ysgol Byrken yn Kingston-upon-Thames. Mr Wynn Davies oedd ein tywysydd ac fe'n harweiniodd o amgylch y gadeirlan gan esbonio hanes y lle o ddyddiau y Brenin Brychan a dylanwad y Normaniaid ar yr ardal ar ôl 1066 a sefydlu Priordy yn Aberhonddu gan yr Arglwydd Normanaidd, Bernard de Neufmarché yn yr 11^{fed} Ganrif.

Fe wahoddodd fynachod Benedictaidd o Abaty Battle yn Swydd Sussex i ymsefydlu yno. Yn ystod y Canol Oesoedd roedd y Gadeirlan yn gyrchfan i bererinion a ddaeth i syllu ar y Groes Grog Aur a chyffwrdd â hi. Pan ddaeth y Diwygiwyd Protestanaidd fe ddiflannodd y Groes Aur, a daeth y Priordy yn Eglwys Blwyf. Syrthiodd rhan helaeth ohoni yn adfeilion, cyn iddi gael ei hatgyweirio gan y pensaer enwog George Gilbert Scott yng nghanol y 19eg Ganrif. Daeth yr Eglwys yn Gadeirlan ar ôl y Datgysylltiad ym 1920 pan rannwyd Esgobaeth Tyddewi i greu Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu ym 1923.

Diweddodd ein pererindod gyda gwasanaeth bendithiol yng Nghapel Havard yn seiliedig ar y Brenin a Sant, Brychan ap Anlach a'i blant ac wyrion, nifer ohonynt a gydnabyddid yn Seintiau yng Nghymru, Cernyw a Llydaw. Fel y dywedodd un hanesydd am y teulu hynod hwn, "Yn holl hanes ein gwlad, nid oes neb wedi gwneud mwy dros ledaeniad Cristionogaeth yng Nghymru na'r teulu sanctaidd hwn".

Cyn troi tua thre yn fodlon ein byd, aethom i dŷ Sally a Grahame Davies am de brynhawn moethus a chymdeithas braf. Roedd yn ddiweddglo perffaith i ddiwrnod hyfryd a bendithiol dros ben. Diolch i bawb a wnaeth y bererindod yn un mor arbennig a chofiadwy. Cawsom fendith ar fendith.



Y Pererinion



Croeso a the prynhawn hyfryd gan Sali Davies

Pobl y plwyf

Fel y gŵyr nifer ohonoch, mae cerddorfa Dovetail, sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr Lloches yng Nghaerdydd, wedi ymgartrefu gyda ni yn EDS. Da yw adrodd bod y gerddorfa hon wedi ennill gwobr Cenedl Noddfa am Gyfraniad i'r Celfyddydau yn ystod yr haf. Yr ydym yn eu llongyfarch yn wresog. Mae unrhyw un sydd wedi mynychu un o gyngherddau Dovetail yn gallu tystio i'r gwaith rhagorol sy'n cael ei gyflawni.



Tîm Cerddorfa Dovetail yn derbyn y wobwr.



...ac yn EDS wedi un o'u cyngherddau



Y barbeciw blynyddol yn Hafodlon



Arglwydd Dysg inni Weddio

Mae eleni yn nodi 800 mlynedd ers marw un o arweinwyr mawr a dylanwadol y ffydd Gristnogol sef Ffransis o Assisi (1181 – 1226). Cafodd ei fagu mewn teulu cyfoethog a dylanwadol ac fe roddodd ei fryd ar fod yn filwr llwyddiannus. Tra'n sefyll mewn hen eglwys a oedd yn syrthio'n adfeilion fe deimlodd alwad gan Dduw yn dweud 'ailadeilada fy eglwys'. Gyda hynny fe roddodd heibio ei fywyd moethus a breintiedig a phenderfynodd fyw bywyd syml iawn er mwyn ailadeiladu'r eglwys, nid â brics a morter, ond ar wasanaeth cariadlon gan ddilyn patrwm gweinidogaeth Iesu Grist.

Mae'n cael ei gofio a'i edmygu heddiw am ei wasanaeth i'r tlodion a'r anghenus a'i waith ymhlith y gwahangleifion. Mae traddodiad yn dweud iddo fod yn hoff iawn o siarad ag anifeiliaid, a bod ganddo barch mawr tuag at bob creadur byw. Rhoddodd bwyslais ar ofalu am greadigaeth Duw. Mae llawer o draddodiadau diddorol yn perthyn i'w fywyd. Sefydlodd Urdd y Ffransisiaid ym 1209 ac y mae'r urdd honno o fynachod a lleianod (y Clarisiaid) yn parhau'n weithgar oddi mewn i'r Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Eglwys Anglicanaidd hyd heddiw.

Ffransis oedd y cyntaf i ddechrau'r traddodiad o greu golygfa o'r preseb a welwn mewn eglwysi adeg y Nadolig gyda'r ychen, yr asyn, y baban Iesu yn gorwedd yn y gwair, Mair a Joseff, y bugeiliaid a'r doethion.

Dyma ei weddi enwocaf sy'n parhau i gael ei defnyddio hyd heddiw. Mae'r geiriau wedi cael eu haddasu i roi'r emyn gweddigar sy'n gyfarwydd inni – "lôr gwna fi'n offeryn dy hedd".

**Arglwydd, gwna fi'n offeryn dy hedd;
Ile mae casineb, gad imi hau cariad,
Ile mae niwed, maddeuant,
Ile mae anghydfod, gweledigaeth,
Ile mae anobaith, gobaith,
Ile mae tywyllwch, goleuni,
Ile mae tristwch, llawenydd.**

*Ffenestr liw i Sant Ffransis o Assisi
yn Eglwys y Santes Fair Ystrad Fflur,
Esgobaeth Tyddewi.*



**O Feistr dwyfol,
Caniatâ imi gysuro yn hytrach na chael fy nghysuro,
i ddeall yn hytrach na chael fy neall,
i garu yn hytrach na chael fy ngharu,
oherwydd wrth roi y derbyniwn,
wrth faddau y derbyniwn faddeuant
ac wrth farw y deffrown i fywyd tragwyddol. Amen.**

Rhai o ddywediadau enwog Ffransis

Does dim pwrpas cerdded i unman i bregethu os nad ein cerdded yw ein pregeth.

Gwybydd hyn, fod cwrteisi yn un o briodoleddau Duw ei hun. Y mae ef o'i gwrteisi yn anfon ei law i'r cyfiawn a'r anghyfiawn fel ei gilydd. Chwaer cariad yw cwrteisi – mae'n diffodd casineb ac yn cadw cariad yn fyw.

Nid oes gennych elyn, ond chi eich hunain.

Nid yw'n weddus yng ngwasanaeth Duw i feddu ar wyneb diflas ac edrychiad oeraidd.

Mil a mwy o Berlau – Olaf Davies 2013

Dyddiadur yr Eglwys

Hydref

Dydd Sadwrn 17 Hydref

9.30am Dewch i Ganu Gloria Vivaldi
gyda Côr Bach £20.

Tachwedd

Dydd Mawrth 3 Tachwedd

Cyngerdd Awr Ginio
Harriet Riley – Offerynnwr Taro
Tocynnau'n £6.50.

Dydd Sadwrn 21 Tachwedd

10.30am Bore Coffi a Chlonc

Nos Lun 23 Tachwedd

7.00pm Cyngor Plwyfol Eglwysig dros Zoom

Nos Iau 26 Tachwedd

6.30pm Noson Caws a Gwin yn Hafod Lon

Nos Iau 26 Tachwedd

7.30pm Cwmni Drama A48
"Arddangosfa Caerdydd 1896"

Nos Wener 27 Tachwedd

7.30pm Cwmni Drama A48
"Arddangosfa Caerdydd 1896"

Dydd Sadwrn 28 Tachwedd

1.00pm Gwasanaeth i Goffau'r Holodomor

Prynhawn Sadwrn 28 Tachwedd

4.00pm Cwmni Drama A48
"Arddangosfa Caerdydd 1896"

Sul yr Adfent 29 Tachwedd

10.30am Y Cymun Bendigaid

6.00pm Gwasanaeth "O'r Tywyllwch i'r Goleuni"

Rhagfyr

Dydd Mawrth 1 Rhagfyr

1.00pm Cyngerdd Awr Ginio

Guy Johnson - Soddgrwth

Tocynnau'n £6.50

Nos Wener 4 Rhagfyr

7.30pm Cyngerdd "Y Tir Tenor" – Calon

Cymru Tocynnau'n £22

Nos Wener 11 Rhagfyr

7.00pm Cyngerdd Côr Cymunedol y Rhath

Nos Sadwrn 12 Rhagfyr

7.30pm Cyngerdd Aelwyd y Waun Ddyfal

Dydd Mercher 16 Rhagfyr

1.00pm Carolau'r Cilgant

Dydd Sul 13 Rhagfyr

10.30am Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul

12.30pm Cinio Nadolig yr Eglwys – Clwb Golff

Yr Eglwys Newydd

6.00pm Yr Hwylol Weddi a Phregeth

Gwasanaethau'r Nadolig yn Eglwys Dewi Sant

Dydd Sul 20 Rhagfyr

6.00pm - Gwasanaeth Naw Llith a Charolau

Noswyl Nadolig 24 Rhagfyr

9.00pm Cymun Cyntaf y Nadolig

Dydd Nadolig 25 Rhagfyr

9.30am Y Cymun Bendigaid gyda Charolau

Nos Sul 3 Ionawr 2027

6.00pm Gwasanaeth Cristingl